

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL  
(MEMORANDWM RHIF 4)**

**BIL YNNI**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod LCM, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
2. Cafodd y Bil Ynni ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 6 Gorffennaf 2022. Cafodd taith y Bil ei hatal am gyfnod cyn ailddechrau ar ddiwedd 2022. Gosodais LCM ar 29 Mehefin 2023 ar y Bil fel y cafodd ei gyflwyno, sy'n cynnwys crynodeb o'r Bil.
3. Gosodais LCM atodol (sLCM) ar 25 Gorffennaf 2023 yn ymdrin â gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Ionawr 2023 ac yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2023. Cymalau'r Pecyn Gwelliant Amgylcheddol Gwynt Alltraeth ("cymalau OWEIP" ac "OWEIP") yw'r enw ar y diwygiadau hyn. Maen nhw'n rhan o Bennod 1 o Ran 13 o'r Bil (sLCM OWEIP).
4. Gosodais LCM ategol (sLCM) ar 4 Medi i ymdrin â gwelliannau eraill a wnaed i'r Bil ers ei gyflwyno ac mae'n ymdrin â'r Bil fel yr oedd wrth adael Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin fel y'i cyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2023.
5. Cwblhaodd y Bil y gyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Medi 2023. Mae'r sLCM hwn yn ymdrin â'r newidiadau i'r cytundeb yn dilyn y Cyfnod Adrodd
6. I weld fersiwn ddiweddarar Bil gyda'r gwelliannau a wnaed yn dilyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, ewch i <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0340/220340.pdf>.

**Amcan y Polisi**

7. Mae Llywodraeth y DU yn amlinellu diben a phrif swyddogaethau'r Bil yn y Nodiadau Esboniadol cysylltiedig<sup>1</sup> (dyddiad y fersiwn diweddaraf yw 25 Ebrill 2023). Yr amcanion polisi mae Llywodraeth y DU wedi'u datgan yw helpu i gynyddu cadernid a dibynadwyedd systemau ynni ledled y DU, cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymadau'r DU mewn perthynas â newid hinsawdd a diwygio system ynni'r DU, gan yr un pryd leihau costau i ddefnyddwyr cymaint ag y bo modd a'u hamddiffyn rhag prisiau annheg.

---

<sup>1</sup> [Energy Bill \[HL\] publications - Parliamentary Bills - UK Parliament](https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0340/220340.pdf)

## **Y sefyllfa ers i mi osod yr LCM a'r sLCMau gerbron Senedd Cymru**

8. Gosodais LCM ar 29 Mehefin 2023, ar y Bil a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU (Tŷ'r Arglwyddi) ar 6 Gorffennaf 2022. Dywedodd y Memorandwm hwnnw mai barn Llywodraeth Cymru yw ei bod hi'n briodol delio â'r darpariaethau ym Mesur y DU fel ffordd effeithlon o gyflwyno deddfwriaeth sy'n ymestyn i Gymru, yn enwedig lle bo'n polisïau'n cydfynd. Mae'n fwy priodol cyflwyno rhai cynlluniau neu gyfundrefnau ar lefel y DU gyfan, o ystyried natur diriogaethol drawsffiniol y gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio.
9. Roedd nifer arwyddocaol o ofidiau ynghylch y Bil fel y'i cyflwynwyd. Fy mhryder pennaf oedd methiant y Bil i adlewyrchu'r setliad datganoli yn ddigonol, yn enwedig rôl Gweinidogion Cymru fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Mae'n hanfodol sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cael dylanwadu ar gynlluniau neu bolisïau ar lefel y DU sy'n effeithio ar brosiectau trawsffiniol arwyddocaol. O ganlyniad, argymhellais fod Senedd Cymru yn gwrthod rhoi ei chydsyniad i'r Bil.
10. Gosodais sLCM OWEIP ar 25 Gorffennaf 2023. Yn fy marn i, nid yw cymalau OWEIP fel y'u cyflwynwyd yn adlewyrchu'r setliad datganoli yn ddigonol, yn enwedig rôl Gweinidogion Cymru fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig. O ystyried y pryderon hynny, argymhellais fod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymalau OWEIP y Bil.
11. Gosodais sLCM ar 4 Medi yn ymdrin â'r gwelliannau eraill a wnaed i'r Bil hyd at a chan gynnwys Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Croesawodd Llywodraeth Cymru nifer o'r gwelliannau i'r Bil gan eu bod yn cynnig esboniad defnyddiol a manylion ychwanegol ar sut y bydd y mesurau a gyflwynwyd gyntaf yn y Bil yn gweithredu. Ond, fel y Bil a gyflwynwyd, mewn nifer o feysydd, nid yw'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn rhoi digon o barch i gymhwysedd Senedd Cymru. O ystyried y pryderon hynny, argymhellais bod Senedd Cymru yn gwrthod rhoi ei chydsyniad i'r Bil.
12. Bu trafodaethau di-dor â Llywodraeth y DU am y Bil ac ailadroddais fy marn yno bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar reoliadau a gyflwynir sy'n effeithio ar faterion datganoledig. Mae Llywodraeth y DU wedi dal at eu safbwynt bod ymgynghori'n ddigon. Nid yw proses ymgynghori yn amddiffyniad boddhaol o safbwynt cyfansoddiadol.
13. Cwblhawyd Cyfnod Adrodd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Medi 2023. Mae'r sLCM hwn yn ymdrin â'r gwelliannau y cytunwyd arnynt sy'n gwneud darpariaeth berthnasol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n newid cymhwysedd Senedd Cymru.

## **Crynodeb o'r newidiadau i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd**

### **Rhan 1: Trwyddedu Cludo a Storio Carbon Deuocsid:**

## **Pennod 1 Trwyddedu Gweithgareddau**

14. Roedd yr LCM yn nodi barn Gweinidogion Cymru bod cymalau ym Mhennod 1 o Ran 1 o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru am eu bod yn gwneud darpariaeth ynghylch storio carbon deuocsid sy'n faes datganoledig. Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel cludo a storio carbon deuocsid a ddaliwyd ac nad ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cafodd y cymalau a ddisgrifir isod eu newid yng Nghyfnod Adrodd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin, ac maent yn dal i wneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Felly, mae angen sLCM ar gyfer y diwygiadau i'r cymalau hyn, sydd wedi'u crynhoi isod.
15. Mae cymal 2 (Gwahardd gweithgareddau heb drwydded) yn cynnwys is-gymal newydd (7a) sy'n darparu na chaiff rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn rhinwedd is-adran (7)(a), wneud darpariaeth sy'n diwygio Deddf Senedd Cymru (na rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Senedd Cymru) heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae cymal 2 yn cyflwyno bod person sy'n gweithredu safle ar gyfer gwaredu carbon deuocsid drwy ei storio yn y ddaear a/neu sy'n darparu gwasanaeth cludo carbon deuocsid yn cyflawni trosedd oni bai bod yr unigolyn wedi cael yr awdurdod i wneud hynny trwy drwydded.
16. Mae is-gymal (7A) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y caiff wneud rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth Senedd Cymru neu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan ddeddfwriaeth Senedd Cymru. Rwy'n credu y dylai fod gofyniad hefyd am gydsyniad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phob darpariaeth sydd â diben cyffredinol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Felly, rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 2.
17. Mae cymal 6 (Dirymu esemptiad neu ei dynnu'n ôl) yn cynnwys is-gymal newydd (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried unrhyw sylwadau a wneir yn unol ag is-adran (4) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi hysbysiad cyn y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol trwy reoliad, ddirymu esemptiad neu dynnu esemptiad yn ôl, yn y gwaharddiad ar weithgaredd trwyddedig. Nid yw'r gwelliant hwn yn newid cymal 6 yn sylweddol gan ei fod yn ymwneud â chymhwysedd datganoledig Cymru. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023, rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 6 a dyna farn Gweinidogion Cymru o hyd.
18. Mae cymal 8 (Pŵer i greu mathau o drwydded) yn cynnwys is-gymal newydd (2a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r awdurdodau datganoledig perthnasol cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn sy'n ymdrin â materion datganoledig. Mae cymal 8 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol reoleiddio i ddarparu ar

gyfer gwahanol fathau o drwydded mewn perthynas â gwahanol weithgareddau.

19. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023, rydym yn argymhell y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 8 gan y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 8. Barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 8.
20. Mae cymal 9 (Gweithdrefn ar gyfer ceisio am drwydded) yn cynnwys is-gymal newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan hysbysu'r awdurdodau datganoledig perthnasol pan fydd yn cynnig rhoi trwydded sy'n awdurdodi gweithgareddau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae cymal 9 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol reoleiddio ar gyfer y weithdrefn ar gyfer ceisio am drwydded. Ceir darpariaeth i ymestyn rhai o'r pwerau hyn i'r rheoleiddiwr economaidd gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.
21. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023, rydym yn argymhell y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 9 gan y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 9. Mae'r gwelliant yn ymwneud yn unig â hysbysiad gan y rheoleiddiwr economaidd (yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a thrydan) pan fydd yn cynnig rhoi trwydded sy'n awdurdodi gweithgareddau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 9.
22. Mae Cymal 10 (Tendrau cystadleuol ar gyfer trwyddedau) yn cynnwys is-gymal newydd sy'n gosod gofynion ychwanegol o ran ymgynghori â'r rheoleiddiwr economaidd (yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan) a'r gweinyddiaethau datganoledig cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 10. Mae cymal 10 yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i gyflwyno cystadleuaeth am y tendrau ar gyfer trwyddedau.
23. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023 rydym yn argymhell y dylai'r Senedd wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 10 gan y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 10. Mae'r gwelliant yn darparu yn unig ar gyfer gofynion ychwanegol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 10.
24. Mae cymal 13 (Newid amodau trwyddedau) yn cynnwys is-gymal newydd sy'n gosod gofynion ychwanegol i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 13 lle bo cynnig i newid trwydded o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae Cymal 13 yn darparu bod y rheoleiddiwr economaidd (yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan) yn cael gwneud rheoliadau i newid amodau trwyddedau.

25. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023, rydym yn argymhell y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 13 gan y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 13. Mae'r gwelliant yn darparu yn unig ar gyfer gofynion ychwanegol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 13.
26. Mae cymal 19 (Caniatâd i drosglwyddo) yn cynnwys is-gymal newydd sy'n gosod gofynion ychwanegol ar y rheoleiddiwr economaidd (yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan) i hysbysu'r gweinyddiaethau datganoledig cyn rhoi cydsyniad i drosglwyddo trwydded sy'n awdurdodi gweithgareddau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae cymal 19 yn sefydlu y gellir trosglwyddo trwyddedau.
27. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023 rydym yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 19 gan y dylai'r rheoleiddiwr economaidd ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn rhoi ei gydsyniad i drosglwyddo'r drwydded o dan gymal 19. Mae'r gwelliant yn darparu yn unig ar gyfer gofynion ychwanegol i hysbysu Gweinidogion Cymru. Barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 19.
28. Mae cymal 39 (blaenraglenni gwaith) yn cynnwys is-gymal newydd sy'n gosod gofynion ychwanegol ar y rheoleiddiwr economaidd (yr Awdurdod Marchnadoedd Trydan a Nwy) i dynnu sylw'r gweinyddiaethau datganoledig at y rhaglen waith. Mae cymal 39 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr economaidd gyhoeddi dogfen sy'n cynnwys disgrifiad cyffredinol o'r prosiectau perthnasol y mae'n bwriadu eu cynnal mewn perthynas â chludo a storio carbon deuocsid.
29. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023, rydym yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 39 gan y dylid ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar y rhaglen waith ddrafft. Mae'r gwelliant yn darparu yn unig ar gyfer gofynion ychwanegol i'r rheoleiddiwr economaidd dynnu sylw Gweinidogion Cymru at y rhaglen waith. Barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 39.

## **Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen**

### **Pennod 1 Contractau Cymorth Refeniw**

30. Mae'r gwelliannau i Bennod 1 o Ran 2 a grynhoir isod yn gwneud darpariaeth berthnasol gan eu bod yn ymdrin â gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly, i'r graddau bod y cymalau

hyn o'u newid yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â dal, cludo a storio carbon deuocsid.

- 30.1 Diwygiwyd cymal 68 (Cyfarwyddyd i gynnig contract) fel y gall rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y cymal hwn sy'n diffinio "cymwys" mewn perthynas ag endid dal carbon gyfeirio at ddogfennau sydd y tu allan i'r rheoliadau, gan fod y dogfennau'n cael effaith o bryd i'w gilydd.
- 30.2 Mae gwelliant cymal 76 (Dyrannu contractau) i is-gymal (4) yn ei gwneud yn glir y gall darpariaeth mewn fframwaith dyrannu (sy'n rheolau a wneir gan Weinidogion Cymru) ymwneud â safonau cyhoeddedig neu ddogfennau cyhoeddedig eraill fel y cânt effaith o bryd i'w gilydd.
- 30.3 Mae cymal 85 (Ymgynghori) yn cynnwys is-gymalau newydd sy'n gosod gofynion ychwanegol i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 73(1) neu gyhoeddi telerau safonol o dan gymal 74. Mae cymal 73 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi pobl, drwy reoliadau, i gyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad â dyrannu contractau cynnal referniw cynhyrchu hydrogen a chontractau cynnal referniw dal carbon. Mae Cymal 74 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi telerau ac amodau contractau cynnal referniw dal Carbon.
31. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023 rydym yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymalau 68, 76 ac 85 gan y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau yn y Rhan hon. Mae'r gwelliannau'n darparu yn unig ar gyfer gofynion ychwanegol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymalau 68, 76 ac 85.

## **Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen**

### **Pennod 3 Datgomisiynu gweithfeydd storio carbon**

32. Mae'r gwelliannau i Bennod 3 o Ran 2 a grynhoir isod yn gwneud darpariaeth berthnasol gan eu bod yn ymwneud â materion gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly, i'r graddau bod y cymalau hyn o'u newid yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â dal, cludo a storio carbon deuocsid.
- 32.1 Newidir cymal 92 (Ariannu costau datgomisiynu ac ati) i ychwanegu'r diffiniad o "installation storio carbon" (sydd â'r un ystyr ag ystyr ag yn adran 30 o Ddeddf Ynni 2008) i is-gymal (11).
- 32.3. Mae cymal newydd [Gov NC64] (Rheoliadau o dan adran 92(1): gweithdrefn gydag awdurdodau datganoledig) wedi'i fewnosod ar ôl cymal 92, sy'n darparu gweithdrefn ymgynghori cyn bod yr

Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau o dan gymal 92(1). Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi hysbysiad i bob gweinyddiaeth ddatganoledig ac ymgynghori am ddim llai na 28 diwrnod pan fydd rheoliadau'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, a rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried unrhyw sylwadau a wneir yn y cyfnod hwnnw.

32.3 Mae cymal 94 (Cymhwyso Rhan 4 o Ddeddf Petrolwim 1998 mewn perthynas â gweithfeydd storio carbon) wedi cael mân welliannau i'r diwygiadau a gynigir i adran 30(5) o Ddeddf Ynni 2008.

33. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023 rydym yn argymhell y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 92 gan y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau yn y Rhan hon. Mae'r gwelliannau'n darparu yn unig ar gyfer gofynion ychwanegol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 92.

## **Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen** **Pennod 3 Strategeth a datganiad polisi**

34 Mae cymal 100 (adolygu) yn cynnwys is-gymal newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, pan fydd yn cynnig adolygiad o'r strategaeth a'r datganiad polisi Dal, Defnyddio a Storio Carbon, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu o leiaf 28 diwrnod i sylwadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo ystyried unrhyw sylwadau sydd wedi'u gwneud yn briodol.

35 Mae'r gwelliannau i'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol gan eu bod yn ymdrin â gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly.

36. Fel y dywed yr LCM gafodd ei osod ar 29 Mehefin 2023, rydym yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 100 gan y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i Weinidogion Cymru am eu cydsyniad, i'r graddau bod y strategaeth a'r datganiad polisi'n ymwneud â Chymru. Gan fod y gwelliant yn darparu yn unig ar gyfer gofyn ychwanegol i ystyried sylwadau, barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 100.

## **Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen** **Pennod 5 Gwybodaeth a samplau storio carbon**

37. Mae paragraff 5 o Atodlen 8 (a fewnosodir gan gymal 124 (Apelau)) wedi ei ddiwygio i gyflwyno hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i derfynu trwydded storio carbon.

38. Mae'r gwelliannau i'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth berthnasol gan eu bod yn ymwneud â materion gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly.
39. Fel y nodir yn yr sLCM a osodwyd ar 4 Medi, mae'n bwysig bod gan weithgaredd trwyddedig ofynion cyffredin o ran gwybodaeth a samplau i sicrhau bod gan Brydain Fawr system effeithlon. Gofynnais am welliant i'r Bennod hon er mwyn cynnwys proses gydsynio ar gyfer trwyddedau a roddir gan Weinidogion Cymru pe bai'r rheoliadau'n effeithio ar feysydd cymhwysedd datganoledig. Gan nad yw'r gwelliant hwn wedi'i wneud, rydym yn argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod ei chydsyniad i gymalau 124.

## **Rhan 2: Dal a storio carbon deuocsid etc. a chynhyrchu hydrogen**

### **Pennod 6 Cyffredinol**

40. Mae'r gwelliannau i Bennod 6 o Ran 2 a grynhoir isod yn gwneud darpariaeth berthnasol gan eu bod yn ymwneud â materion gwastraff a diogelu'r amgylchedd, sy'n cynnwys mesurau datgarboneiddio fel dal carbon deuocsid. Nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn Atodlen 7A GOWA. Mae angen sLCM felly, i'r graddau bod y cymalau hyn o'u newid yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â dal, cludo a storio carbon deuocsid.
- 40.1 Mae cymal 127 (Mynediad i seilwaith): mae'r diwygiad i is-gymal (6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu 28 diwrnod i sylwadau gael eu cyflwyno ynghylch y rheoliadau a gynigir o dan y cymal hwn ac mae'n gosod dyletswydd i ystyried sylwadau a wneir yn briodol wrth ymgynghori â Gweinidogion Cymru.
- 40.2 Cymal 128 (Cymorth ariannol). Nod y gwelliannau i'r cymal hwn yw esbonio'r cymorth ariannol y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei ddarparu, gan nodi ei fod ar gyfer un ai cludo neu storio carbon deuocsid neu'r ddau. Y nod yw sicrhau eglurder ynghylch storio carbon a hydrogen.
41. Cyn gwneud rheoliadau o dan y Rhan hon, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Dylid diwygio'r gofyniad i ymgynghori i fod yn ofyniad sy'n gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru felly rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymalau 127 a 128

## **Rhan 4 Technoleg Newydd: Pennod 1 Cynlluniau gwres carbon isel**



42. Mae cymal 150 (rheoliadau'r Cynllun: gweithdrefn ac ati) yn cynnwys is-gymalau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig i'r graddau y mae rheoliadau o dan gymal 142(1) yn gymwys i Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu o leiaf 28 diwrnod i sylwadau gael eu gwneud ac os gofynnir iddo, rhaid rhoi datganiad sy'n nodi a yw sylwadau a wnaed gan weinyddiaeth ddatganoledig wedi'u hystyried yn y rheoliadau a sut.
43. Mae cymal 142 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ar gyfer sefydlu a chynnal cynlluniau gwres carbon isel (h.y. cynlluniau sy'n annog cyflenwi neu osod offer gwresogi penodol trwy bennu targedau carbon isel). Mae paragraff 101 o Atodlen 7A i GoWA yn darparu ar gyfer cadw "Cynhyrchu, dosbarthu a chyflenwi gwres a mesurau oeri" yn ôl. Mae hefyd yn darparu eithriad i hyn sef "Cynlluniau sy'n darparu cymhellion i gynhyrchu, neu i hwyluso cynhyrchu, gwres neu fesurau oeri o ffynonellau ynni heblaw tanwydd ffosil neu danwydd niwclear". Rydym o'r farn bod y cymal o fewn yr eithriad hwnnw, ac felly o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
44. Fel y nodir yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023, rydym yn argymhell y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 142 gan y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i'r graddau bod y rheoliadau'n ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Barn Gweinidogion Cymru o hyd yw y dylai Senedd Cymru wrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 150 sy'n ymwneud â'r weithdrefn i ddod â rheoliadau'r cynllun yng nghymal 142 i rym.
45. Mae cymal newydd [Gov NC52] (Cynllun sicrwydd refeniw ar gyfer cynhyrchwyr tanwydd hedfan cynaliadwy: ymgynghori ac adrodd) wedi'i fewnosod ar ôl cymal 156. Mae'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ddechrau, o fewn 6 mis ar ôl dyddiad pasio'r Bil, ymgynghoriad cyhoeddus i ddylunio a gweithredu "sustainable aviation fuel revenue certainty scheme". Yn ein barn ni, mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth o fewn yr eithriad i'r mater a gadwyd yn ôl ym mharagraff 125 o Atodlen 7A i GOWA (Hedfan, trafndiaeth awyr, meysydd awyr ac aerodromau), gan ei fod yn ymwneud â chymorth ariannol i ddarparwyr neu ddarparwyr arfaethedig gwasanaethau trafndiaeth awyr. Felly, mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac mae angen LCM arno.
46. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd tanwydd hedfan cynaliadwy i helpu'r diwydiant i gyrraedd sero net. Rydym yn croesawu gofyniad i ddechrau ymgynghori, felly argymhellwn bod Senedd Cymru'n rhoi ei chydsyniad i'r cymal newydd hwn.

## **Rhan 5 Gweithredwr a Chynllunydd System Annibynnol**

47. Mae paragraff 9 o Atodlen 9 (a fewnosodir gan gymal 171 (Trosglwyddiadau)) wedi'i newid i ddileu cyfeiriad at "land transaction tax"

fel treth berthnasol o fewn y paragraff hwnnw. Yn yr LCM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023, nododd Gweinidogion Cymru y byddem yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am gael tynnu treth trafodion tir o'r rhestr drethi. Mae'r gwelliant hwn yn dilyn y cais hwnnw. Nid yw'r paragraff hwn bellach o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ond nodir y gwelliant hwn gan i'r paragraff hwn gael ei gynnwys o'r blaen o fewn LCM 29 Mehefin 2023.

### **Rhan 8 Rhwydweithiau Gwres: Pennod 1 Rheoleiddio Rhwydweithiau Gwres**

48. Cyflwynwyd Cymal Newydd (Rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol: ymgynghori ag awdurdodau datganoledig) ar ôl cymal 216 sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r awdurdodau datganoledig perthnasol i'r graddau bod y rheoliadau o dan gymal 216 yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cymru. Mae cymal 216 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth drwy reoliadau at ddibenion rhoi pwerau mewn perthynas â datblygu neu gynnal rhwydweithiau gwres perthnasol.
49. Mae paragraff 101 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer cadw "chynhyrchu, dosbarthu a chyflenwi gwres a mesurau oeri" yn ôl. Ond y mae hefyd yn darparu eithriad i hyn, sef "rhwydweithiau gwres ac oeri, ond nid eu rheoleiddio". Mae'r ddarpariaeth yn y cymal hwn yn dod o fewn yr eithriad i'r mater a gedwir yn ôl, sy'n ymwneud fel y mae â datblygu a chynnal rhwydweithiau gwresogi ac oeri. Fel y nodwyd yn yr SLM a osodwyd ar 29 Mehefin 2023, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod yr hawliau a'r pwerau'n briodol ac yn gyson â seilwaith ynni arall. Rydym yn croesawu bod ymgynghoriad wedi'i ychwanegu yn yr achos hwn.

### **Rhan 11 Cynlluniau Cyfleoedd i Arbed Ynni**

- 50 Cymal 259 (rheoliadau ESOS; Gweithdrefn etc) wedi'i ddiwygio i gyflwyno gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â gweinyddiaethau datganoledig i'r graddau bod rheoliadau ESOS yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cymru.
- 51 Fel y nodwyd yn yr LCM a osodwyd ar 04 Medi lle bo rheoliadau ESOS yn cynnwys darpariaethau o fewn cymhwysedd datganoledig Senedd Cymru, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau. Nid yw'r newidiadau'n cyflwyno gofyniad i ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru ac felly rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymal 259.

### **Rhan 13 – Cynhyrchu Trydan Gwynt Alltraeth, Olew a Nwy: Pennod 1 Cynhyrchu Trydan Gwynt Alltraeth**

52. Mae cymal 288 (cronfa adfer morol) wedi'i newid fel a ganlyn:

- i ddarparu bod rheoliadau o dan gymal 288 yn galluogi'r person a osododd amod digolledu (fel y'i diffinnir gan gymal 288(5)) i benderfynu'r graddau y mae taliad i gronfa adfer yn bodloni'r amod.
- ei gwneud yn glir mai dim ond swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â rhedeg neu reoli cronfa adfer morol y gellir eu dirprwyo i, er enghraifft, Gweinidogion Cymru.
- darparu bod rhaid cael cydsyniad y weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol i reoliadau o dan gymal 288 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dirprwyo swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon
- gosod gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 288 (gan gynnwys gofyniad i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig i'r graddau bod y rheoliadau'n ymwneud â gweithgareddau yn eu meysydd).

53. Mae cymal 289 (asesu effeithiau amgylcheddol etc) wedi'i newid fel a ganlyn:

- gosod gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 288 (gan gynnwys gofyniad i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig i'r graddau bod y rheoliadau'n ymwneud â gweithgareddau yn eu hardaloedd).
- egluro na chaiff rheoliadau a wneir o dan gymal 289 gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddiddymu swyddogaethau y gall awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon eu harfer na darparu y gall person arall arfer swyddogaethau o'r fath yr un pryd.
- galluogi rheoliadau o dan gymal 289 i awdurdodi person a bennir yn y rheoliadau (yn ogystal â'r awdurdod priodol) i roi cyfarwyddiadau. Gallai'r rheoliadau, er enghraifft, awdurdodi person sy'n cynnal asesiad amgylcheddol neu weinyddiaeth ddatganoledig i roi cyfarwyddiadau.
- atal rheoliadau o dan gymal 289 sy'n awdurdodi person heblaw am Weinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban i roi cyfarwyddyd i awdurdod cyhoeddus yng Nghymru neu'r Alban.
- dileu'r gallu i reoliadau o dan gymal 289(1) ddatgymhwyso neu newid hawliau sy'n codi o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Hynny o ganlyniad i adran 2 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. O'i herwydd, bydd hawliau o'r fath yn peidio â chael eu cydnabod neu eu gorfodi mewn cyfraith ddomestig.

54. Er bod croeso i'r diwygiadau hyn a'u bod yn gwella cymalau OWEIP fel y'u cyflwynwyd, ac yn bodloni rhai o'r ceisiadau a nodwyd yn LCM 25 Gorffennaf 2023, mae sawl mater heb ei ddatrys fel a ganlyn:

- Nid yw'r diwygiadau'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal Cronfa Adfer Forol os mai nhw yw'r awdurdod priodol sydd â dyletswydd i sicrhau mesurau digolledu ar gyfer safleoedd morol gwarchoddedig Ewropeaidd.
- Dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y dylid cael gwneud rheoliadau i sefydlu cronfa adfer forol a fyddai'n gymwys yn rhanbarth glannau Cymru ar gyfer gweithgareddau 350MW a llai. Nid oes sôn bod darpariaeth ar gyfer hyn.

- Mae'r cyfeiriad at 'swyddogaethau cymwys yr Ysgrifennydd Gwladol' yn is-gymal 2(b) wedi'i gadw.
55. O ystyried y pryderon hyn, rwy'n argymhell bod Senedd Cymru'n parhau i wrthod rhoi ei chydysniad i gymalau OWEIP ac yn yr sLCM hwn i wrthod rhoi ei chydysniad i'r gwelliannau i gymalau 288 a 289.

### **Rhan 13 Cynhyrchu Trydan Gwynt Alltraeth, Ole a Nwy: Pennod 2 Olew a Nwy**

56. Mae Cymal Newydd (Rheoliadau o dan adran 292 a 293: gweithdrefn gydag awdurdodau datganoledig) wedi ei gyflwyno ar ôl cymal 293. Ar gyfer rheoliadau cymal 292, mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi hysbysiad i Weinidogion Cymru ac ystyried sylwadau a wnaed ac na chawsant eu tynnu'n ôl cyn gwneud rheoliadau o dan adran 292 sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae cymal 292 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am seilwaith penodedig penodol i fod â chynllun brys ar gyfer ymateb i lygredd olew morol.
